

ASTUDIAETH ACHOS GALWAD: MYNEDIAD

Nicci Bailey

Rheolwr Mynediad a
Chynhwysiant

Tachwedd 2022



CYFLWYNIAD

Roedd GALWAD wedi ymrwymo o'r cychwyn i gynhwysiant radical – hynny yw, newid sut mae prosiectau o'r maint yma'n cael eu gwneud a gan bwy. Fel casgliad o sefydliadau ac unigolion, roedden ni'n cydnabod pwysigrwydd cyd-greu cyfres o egwyddorion gweithio er mwyn creu amgylchedd diogel i brofi ffyrdd newydd o weithio, i wneud camgymeriadau ac i ddysgu a chefnogi ein gilydd drwy newid.

Ein hegwyddorion gweithio oedd:

- Cynhwysiant fydd ein hystyriaeth gyntaf bob amser.
- ydyn ni i gyd yn gyfrifol am gynhwysiant.
- ydd profiad bywyd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Rydyn ni'n wrth-hiliol ac yn wrth-ableddol.
- Rydyn ni'n atebol.
- Byddwn ni'n creu amodau i greadigrwydd ffynnu.
- Taith yw newid, ac rydyn ni'n cydnabod y byddwn ni'n gwneud camgymeriadau.

Wrth i'r prosiect ddatblygu ac wrth i'r tîm creadigol a thîm y prosiect a'n partneriaid ehangu, fe wnaethon ni barhau i ymdrechu i sicrhau cynhwysiant radical, yn arbennig o ran sicrhau bod stori GALWAD yn cynrychioli'r Gymru gyfoes a bod cymeriadau, deialog, plot a ieithoedd y stori yn herio ystrydebau. Cafodd y gwaith yma ei gyfoethogi drwy gyngor ac ymgynghori â nifer o sefydliadau ac unigolion gan gynnwys Deaf Talent Collective, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a leuenctid, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Climate Outreach ac aelodau o'n timau creadigol ac ysgrifennu.

O ystyried y cyfnod byr o ddatblygu cynhyrchiad GALWAD o'r sgript i'w gynhyrchu, rydyn ni'n arbennig o ddiolchgar i'r tîm creadigol, y tîm cynhyrchu a'r cymunedau am eu hymrwymiad i ddysgu drwy gydol y broses.

**CLAIRE DOHERTY,
CYFARWYDDWR CREADIGOL**

Roedden ni'n gwybod bod sgwrs bwysig i'w chael ynghylch ymddiriedaeth. Mae cymunedau anabl yn cael eu gadael i lawr neu'n cael eu hanghofio mor aml gan gymdeithas, roedden ni'n gwybod, os oedden ni am sicrhau cynhwysiant gwirioneddol, bod angen i ni wneud yn siŵr ei fod yn cael ei lywio gan brofiad bywyd ac y gallai rhanddeiliaid anabl roi eu ffydd ynddon ni i ddarparu mannau cefnogol diogel lle gallen nhw ffynnu.

Nod yr astudiaeth achos yma yw rhoi cipolwg ar sut roedden ni'n gweithio, yr heriau roedden ni'n eu hwynebu a sut y gwnaethon ni geisio eu goresgyn gan ganolbwyntio ar fynediad.

Rydyn ni'n myfyrio ar ein hamser yn gweithio gyda chydweithwyr a chymunedau Byddar, ac er ein bod yn gynghreiriaid i'r gymuned Fyddar, mae'n bwysig cydnabod bod yr astudiaeth achos yma wedi'i hysgrifennu o safbwynt pobl sy'n clywed. Er nad ein lle ni yw gwneud sylwadau ar ddiwylliant Byddar, roedden ni am fyfyrion ar arfer da ar gyfer sefydliadau celfyddydol a rhoi cipolwg ar elfennau ymarferol mynediad a gweithio cyfannol – yn enwedig sut y buon ni'n gweithio gyda dehonglwyr, fel y gall sefydliadau eraill sy'n cael eu harwain gan bobl sy'n clywed ddatblygu eu harfer eu hunain.

Rydyn ni'n cynghori y dylech bob amser geisio cyngor ac ymgynghori â phobl a chymunedau sydd â phrofiad bywyd, a thalu'n briodol iddyn nhw am hynny. Gweler ein hadran adnoddau sydd â dolenni at bobl a sefydliadau gwych sydd â phrofiad bywyd.

CIPOLWG AR NIFEROEDD

- 12 o ymgynghorwyr / cydweithwyr byddar
- Neilltuo dros £250,000 o'r gyllideb ar gyfer Mynediad, Cynhwysiant a Chyfieithu a £730,000 tuag at Ddysgu a Chyfranogiad
- 42 o weithwyr llawrydd wedi archebu lle ar hyfforddiant wedi'i ariannu gan Casgliad Cymru oedd yn cael ei ddarparu gan CULT
- 8 aelod tîm sy'n clywed naill ai wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Byddardod neu'n dysgu/cwblhau hyfforddiant achrededig mewn BSL
- 31 o staff, pobl greadigol a'r tîm cynhyrchu wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth Byddardod a Chyflwyniad i BSL
- 1 actor sy'n clywed gyda dealltwriaeth achrededig a hyder mewn BSL
- 1 aelod o staff wedi cwblhau Datblygiad Proffesiynol Parhaus i wneud hyfforddiant achrededig mewn BSL
- 2 aelod o staff wedi cwblhau cwrs Mynediad i Waith
- Cynnal sesiynau sgiliau mewn Estheteg Mynediad
- 160+ awr o Ymgynghoriaeth Byddardod

21%

O'R GWEITHLU AR DDIWEDD Y PROSIECT WEDI NODI EU BOD NAILL AI'N FYDDAR, YN ANABL NEU'N BYW GYDA CHYFLYRAU MEDDYGOL HIRDYMOR.

ROEDD CYNNWYSIANT RADICAL YN DDATGANIAD BEIDDGAR OEDD YN EIN DAL NI I GYFRI

BETH WNAETHON NI?

- Roedd Cynhwysiant Radical yn egwyddor allweddol, yr un mor bwysig i ni â darparu cynnwys o ansawdd rhagorol neu gadw at y gyllideb.
- Roedd Pwyllgor y Prosiect yn cynnwys grŵp amrywiol o arweinwyr a ddaeth â'u profiad bywyd personol eu hunain i'w hidlo ar draws y prosiect. Codwyd lleisiau'r Cast a'r Cwmni Ifanc fuodd yn cyfrannu at yr holl broses o greu.
- Amser oedd yr elfen hanfodol o ran realiti cynhwysiant; newid diwylliant sefydliadol drwy wreiddio amser ychwanegol mewn prosesau ac addasu i wahanol ffyrdd o weithio..
- Roedden ni'n cydnabod bod proses greu gynhwysol yr un mor bwysig â'r cynnyrch terfynol.
- Cyflogi pobl greadigol a staff medrus oedd â gwybodaeth a phrofiad o ddarparu mynediad ac amlieithrwydd ar raddfa fawr..
- Roedd timau mynediad yn cefnogi'r sefydliad cyfan a'n cyflenwyr i fod yn atebol ac i ddarparu arferion cynhwysol, gan hyfforddi timau neu ddod ag ymgynghorwyr i mewn.
- Cynnig cyfle i bawb oedd yn cymryd rhan yn y prosiect gwblhau pecyn mynediad yn amlinellu anghenion penodol a allai fod ganddyn nhw i'w galluogi i wneud eu gwaith.
- Cynnig i unrhyw un a nododd eu bod yn Fyddar, yn Anabl neu'n Niwroamrywiol gael cyfarfodydd dilynol 1-1 gyda'r Rheolwr Mynediad a Chynhwysiant i greu cynlluniau mynediad personol a fyddai'n cael eu hymgorffori yn ein prosesau gwaith.

BETH WNAETHON NI?

- Gwybodaeth, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar gael yn ddwyieithog y tu hwnt i'r gofyniad gorfodol ar gyfer sefydliad yng Nghymru sy'n cael arian cyhoeddus.
- Roedd gan sesiynau a arweiniwyd gan bobl sy'n clywed gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cyfathrebu mewn ffordd briodol i sicrhau nad oedd dim deialog yn cael ei cholli gan gydweithwyr Byddar, ac roedd pawb yn cael cyfle i gymryd rhan lawn mewn sesiynau.
- Cyfarfodydd hygyrch gyda darpariaeth ar gyfer capsiynau byw neu ddehonglwyr a seibiannau rheolaidd.
- Cyfarfodydd a/neu ddigwyddiadau oedd yn wynebu'r cyhoedd yn cynnwys hunan-ddisgrifiadau fel elfen safonol.
- Roedd Estheteg Mynediad wrth wraidd gwaith dylunio cynnwys yn hytrach nag yn rhywbeth ychwanegol. Darparu sesiynau sgiliau i staff a phobl greadigol ar y fethodoleg i'w hymgorffori yn ein prosesau.
- Dim strôb na delweddau niweidiol sy'n fflachio yn unrhyw un o'n dyluniadau, a rhoi ein cynnwys drwy Brawf Harding.
- Fe wnaethon ni fuddsoddi mewn offer hygyrchedd mewnol, gan olygu nad oedd angen i ni ddibynnu ar gyflenwyr.
- Cynnal asesiadau safle a gofod trwyadl, gan weithio gyda'r tîm Cynhyrchu i bennu posibiliadau a chyfyngiadau safle, a'u haddasrwydd ar gyfer anghenion ein tîm a'n cynulleidfa, gan gynnwys mannau cyfarfod, ymarfer, gweithdai a pherfformio.
- Roedden ni'n llafar ein bod yn gweld cyflyrau iechyd meddwl fel anabledd.
- Dim ond archebu lleoliadau hollol hygyrch (a gwirioneddol hygyrch).
- Roedden ni'n parchu iaith a'r cyfrifoldeb oedd arnon ni i greu gwaith tairieithog credadwy.
- Derbyn arweiniad profiad bywyd i ragweld sut y gallai dyfodol cynhwysol edrych.
- Annog gweithio hyblyg.

CASTIO, RECRIWTIO A CHYNEFINO CYNHWYSOL

Drwy alinio ein hunain â'r Saith Egwyddor Gynhwysol, fe wnaethon ni gymhwyso ymagwedd at fynediad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a hynny ar raddfa fawr.

Fe fuodd ein tîm Mynediad yn gweithio ar draws y prosiect o'r eiliad recriwtio neu gastio i weithio gyda channoedd o unigolion gan droi mynediad yn realiti.

Herio rhwystrau hanesyddol, yn enwedig yn y diwydiant ffilm.

Mae hyn yn cynnwys staff, gweithwyr llawrydd, artistiaid, cast, technegwyr, timau cyllid, criw, gyrwyr, y tu ôl i'r llenni, gwirfoddolwyr, ymgysylltu â'r gymuned, cyfranogwyr gweithdai, a llawer mwy.

-

Yn hollbwysig, wnaethon ni ddim anghofio am "y bobl sy'n gofalu am y bobl", h.y. y cydlynwyr, y criw a'r rheolwyr cynhyrchu. Yn aml, mae'r diwydiant yn manteisio ar y swyddi yma gyda phwysau ychwanegol ac amodau ac oriau gwaith anodd.

CYNIGIWYD CYFLE
GWYBODUS I BOB UN
YN DDIWAHÂN LENWI
PECYN MYNEDIAD

Wnaeth pawb ddim cwblhau'r pecyn mynediad, ond drwy gynnig y cyfle yma'n feddylgar a bwriadus, rydyn ni'n creu mannau mwy cynhwysol yn syth – yn enwedig i weithwyr llawrydd nad ydyn nhw'n aml yn cael eu hamddiffyn gan system reoli neu adnoddau dynol ffurfiol.

Rydyn ni'n gweld ein hunain fel sefydliad fydd yn gwrando ac yn gweithredu ar y wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda ni.

Mae hanes hir o bobl anabl yn rhannu pecyn mynediad gyda phobl neu sefydliadau dim ond i'r bobl neu sefydliadau hynny beidio'u darllen, peidio gweithredu arnynt, neu fod heb ddigon o wybodaeth fewnol i wybod beth i'w wneud â'r wybodaeth. Mae pobl anabl yn rhoi gwybodaeth hanfodol i sefydliadau ac yn aml dydy'r wybodaeth ddim yn cael ei darllen.

CASTIO, RECRIWTIO A CHYNEFINO CYNHWYSOL

SUT I FYND ATI

- Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw anghenion yn cael eu diwallu?
- Pwy sy'n talu am unrhyw adnoddau ychwanegol a sut mae hyn yn cael ei reoli?
- Sut bydd y gyfres yma o ofynion mynediad yn effeithio ar y prosiect? h.y. amserlennu, llwyth gwaith, archebu lleoliad, adnoddau ychwanegol, hyfforddiant mewnol ac ati
- Sut bydd anghenion newidiol yn cael eu nodi a'u diwallu?
- Pa fesurau parhaol neu dros dro sydd angen i chi eu rhoi ar waith?
- Oes angen i chi gwblhau asesiad risg?
- Beth yw'r senario waethaf os na chaiff yr anghenion yma eu diwallu a beth sydd angen i chi ei wneud i atal hynny rhag digwydd?
- Sut ydych chi'n sicrhau'n barhaus bod anghenion mynediad yn cael eu diwallu drwy gydol oes y gwaith ac mewn sefyllfaoedd heriol?
- Paratowch ar gyfer rhyngblethni – h.y. beth yw'r oblygiadau os oes gan rywun epilepsi a chyflwr iechyd meddwl? Neu os ydyn nhw'n Fyddar ac yn niwroamrywiol?
- At bwy maen nhw'n mynd am gefnogaeth? At bwy maen nhw'n mynd os nad yw'r unigolyn yna'n diwallu eu hanghenion?
- Oes unrhyw ofynion mynediad a allai effeithio ar ofynion rhywun arall a sut gellir rheoli hyn?
- *h.y. gall rhywun â golwg rhannol elwa ar olau da uwchben, ond gallai rhai cydweithwyr niwroamrywiol ei chael yn anodd gweithio mewn golau crydfddifficult*

CASTIO, RECRIWTIO A CHYNEFINO CYNHWYSOL

SUT I FYND ATI

Sylwer, os oes gan rywun becyn mynediad eisoes, os oes modd o gwbl dylech osgoi gofyn iddyn nhw lenwi ffurflen arall i chi.

Y tebygrwydd yw ei fod yn fwy manwl na'r cwestiynau rydych chi'n bwriadu eu gofyn a byddai gorfod cwblhau mwy o waith papur diangen yn gwastraffu amser yr unigolyn. Fodd bynnag, os byddwch chi'n dod o hyd i ateb penodol sydd ei angen arnoch sydd ar goll o'u pecyn mynediad personol nhw, gallwch bob amser ei ddilyn i fyny gyda nhw i wneud yn siŵr eich bod yn gweithio ar sail y wybodaeth gywir.

Mae'n hanfodol cysylltu â'r unigolyn ynglŷn â'r ffordd orau i'w cefnogi a sut maen nhw'n hoffi gweithio, a byddwch yn barod i fod yn hyblyg yn eich cynlluniau mynediad. Gall anghenion pobl newid yn dibynnu ar lawer o wahanol ffactorau, felly peidiwch â meddwl bod yr holl waith wedi'i wneud unwaith y bydd y ffurflen gychwynnol wedi'i llenwi.

SUT I FYND ATI

1 YMDDIRIEDAETH

Pam ddylai pobl ymddiried ynoch chi?

2 AMSER

Sut bydd eich llinell amser yn addasu?

3 CYLLIDEB

Nid rhywbeth ychwanegol yw mynediad, beth fyddwch chi'n ei dorri er mwyn sicrhau bod mynediad bob amser yn cael ei gynnwys?

4 SGILIAU

Sut mae mynediad yn effeithio ar bob rôl unigol? Pwy ydych chi'n mynd i'w holi pan nad ydych chi'n gwybod beth i'w wneud?

5 ATEBOLRWYDD

Sut ydych chi'n bod yn gyson ac yn ddibynadwy o atebol?

6 GWERTHUSO

Sut ydych chi'n gwybod eich bod chi'n gwneud pethau'n iawn?

CYNULLEIDFAOEDD

ROEDD CYNNWYS DIGIDOL GALWAD YN CYNNIG

- Penawdau Agored Saesneg ar gyfer pob deialog BSL a Chymraeg.
- Capsiynau Caeedig Saesneg ar gyfer pob iaith.
- Sain Ddisgrifiad Cymraeg
- Sain Ddisgrifiad Saesneg
- Wedi'i gymeradwyo drwy Brawf Harding (Addas ar gyfer cynulleidfaoedd ag epilepsi goleusensitif)
- Yr holl gynnwys ar gael mewn un lle sy'n golygu y gall cynulleidfaoedd gymryd rhan mewn amserlen sy'n gweithio iddyn nhw.
- Disgrifiadau testun amgen ar luniau llonydd
- Y wefan a chynnwys cyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Ar gael ar sawl llwyfan h.y., y wefan, YouTube, Sky Arts, Now TV.
- Copi ystyriol ar gyfer darllenwyr sgrin h.y. iaith a defnydd o emojis

CYNULLEIDFAOEDD

ROEDD PERFFORMIAD BYW GALWAD YN CYNNIG

- Cynnwys tairieithog
- Dehongli Iaith Arwyddion Prydain (BSL)
- Sain Ddisgrifiad Cymraeg
- Sain Ddisgrifiad Saesneg
- Mannau Gweld Hygyrch
- Map Cyffyrddadwy
- Teithiau mynediad creadigol yn y sioe
- Gofod Tawel / Ymlaciedig
- Staff mynediad a chymorth hyfforddedig wrth law
- Seddau ar gael i unrhyw un oedd eu hangen it
- Amddiffynwyr clust am ddim ar gael
- Arwyddion dwyieithog
- Llwybrau hygyrch
- Blancedi ar gael
- Dehonglwyr BSL fel rhan o dîm Blaen y Tŷ
- Siaradwyr Cymraeg fel rhan o dîm Blaen y Tŷ
- Staff cymorth hyfforddedig fel rhan o dîm Blaen y Tŷ
- Dolen clyw cyrhaeddiad sylweddol
- Sawl tŷ bach hygyrch
- Bysiau gwennol hygyrch i helpu pobl i deithio i'r perfformiad



ASTUDIAETHAU ACHOS

GWNEUD I AMLIEITHRWYDD LWYDDO

Yn ein cyfnod dyfeisio cychwynnol, fe sylweddolôn ni nad oedd ganddon ni neb yn y stiwdio oedd yn gwbl rugl ym mhob un o'r tair iaith roedden ni eisiau creu ynddyn nhw.

Roedd gan y rhan fwyaf o berfformwyr lefelau cymedrol i dda o Gymraeg ond fe welon ni gyda chymaint o ymdrech yn mynd er mwyn integreiddio a dysgu BSL, bod y Gymraeg yn cael ei cholli o'r ystafell er bod y rhan fwyaf o'n tîm cyfarwyddo creadigol yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Roedd hyn yn rhannol oherwydd mai dim ond llond dwrn o ddehonglwyr BSL sydd hefyd yn siarad Cymraeg ar draws y wlad ac nad oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw ar gael i weithio gyda ni.

Roedd hyn yn golygu bod amser y stiwdio yn cael ei arwain yn Saesneg yn y dyddiau cynnar, er mwyn i'r dehonglwyr allu arwyddo ar gyfer cydweithwyr Byddar. O edrych yn ôl, fe ddylen ni fod wedi ffurfio perthynas â dehonglwyr Cymraeg yn gynharach yn y broses ac yn ddelfrydol wedi rhoi cytundeb iddyn nhw fod ar dâl cadw.

Fe wnaethon ni roi cynnig ar ychydig o opsiynau gwahanol gan gynnwys cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg drwy glustffonau ond roedd hyn yn teimlo'n drwsgl ac yn ychwanegu haenau ychwanegol o gymhlethdod.

Yn hytrach, yr hyn weithiodd i ni oedd creu sgriptiau dwyieithog gyda'r Gymraeg wedi'i chyfieithu i'r Saesneg ar y dudalen ei hunan.

Fel yna roedd pawb yn y stiwdio yn gallu deall neu o leiaf wirio beth oedd yn cael ei gyfathrebu yn rhwydd.

Yn sgil hynny roedd angen system gadarn ar gyfer golygu sgriptiau nid yn unig ar gyfer y cynnwys i'r gynulleidfa ond hefyd i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer prosesau ymarfer a dysgu llinellau.



Mae diwylliant Cymru a'i llywodraethiant yn benthg ei hunan yn organig i ymdeimlad o ryddid cynhwysol lle gall cymunedau ymgysylltu yn eu dewis iaith drwy weithredoedd micro neu facro. Mae hyn yn gwneud Cymru'n lle delfrydol i greu neu dreialu gwaith amlieithog.

Mae'r wlad eisoes wedi arfer gweithio'n ddwyieithog, mae darparu dau gopi o ddogfen yn norm, mae cyfieithwyr ar gael yn rhwydd ac yn hawdd gweithio gyda nhw. Felly mae prosesau perthnasol ar waith eisoes ac mae parch at amlieithrwydd wedi'u hymgorffori'n ddiofyn yn sector celfyddydau Cymru.

ASTUDIAETHAU ACHOS

PROSES GOLYGU SGRIPTIAU GALWAD

- Byddai nodiadau diwedd ymarferion yn mynd i'r prif awdur a fyddai'n dilyn i fyny ac yn bwrw ati ar y drafft nesaf gan amlygu'r iaith y dylai darnau penodol o destun fod ynddi. Byddai'r drafft yn cael ei anfon wedyn at gyd-awdur Cymraeg i gynnwys, ychwanegu neu wirio cywirdeb yn y Gymraeg.
- Roedd y Cynhyrchydd Cynorthwyol yn gyfrifol am greu sgriptiau ymarfer oedd yn cynnwys cyfieithiadau o unrhyw Gymraeg a defnyddio system o godio i gyfeirio at adnodd fideo BSL.
- Byddai ein hymgyngorydd BSL yn derbyn y sgript ddrafft ac yn gweithio o'u nodiadau ymarfer eu hunain a'r amser roedden nhw wedi'i dreulio yn gweithio gyda'r tîm creadigol a pherfformwyr Byddar i greu cyfieithiadau BSL corfforol ar ffurf fideo a darparu unrhyw nodiadau ychwanegol ar iaith, cyd-destun a chyfeiriadau neu effaith benodol ar ddiwylliant Byddar yn yr olygfa ac yna ar y sgript ehangach yn ei chyfanrwydd.

BSL references					
Scene	Page	Reference	Character	Link	notes
1B	6	AA	Efa	https://vimeo.com/742577010/45c92d74e6	
1B	6	AB	Rhodri		
1B	6	AAA	Efa	https://vimeo.com/742577010/45c92d74e6#v=27a	
1B	7	AC	Rhodri		
1B	7	ACC	Max	https://vimeo.com/742577010/45c92d74e6#v=47a	
1B	8	AD	Efa	https://vimeo.com/742577010/45c92d74e6#v=1m08a	
1B	8	AE	Rhodri		
1B	8	AF	Efa	https://vimeo.com/742577010/45c92d74e6#v=1m27a	
1B	8	AG	Rhodri		
2B	18	AH	MAX	TO BE SCRIPTED	
2B	18	AI	Alisha	https://vimeo.com/742565482/397d41b9af	
2B	19	AJ	Rhodri		
2B	20	AK	Rhodri		
2B	20	AL	Max	https://vimeo.com/750080053/45cb1f0639	<--- 16/09 new video
2B	21	AM	Rhodri		
2B	21	AN	Max	https://vimeo.com/742565482/397d41b9af#v=1m05a	
2B	26	AO	Rhodri		
2B	26	AP	Rhodri		
2B	27	AQ	Rhodri		
2B	27	AR	Efa	https://vimeo.com/742569761/9a7fe34020#v=9a	
2B	28	AS	Rhodri		



Scene 1b AA, AAA, AD, AF V2 (Copy)

ASTUDIAETHAU ACHOS

PROSES GOLYGU SGRIPTIAU GALWAD

Byddai'r drafft ysgrifenedig a'r sgriptiau fideo yn cael eu hanfon at y tîm cyfarwyddo creadigol i'w cymeradwyo'n derfynol er mwyn sicrhau bod y cyfan yn gweithio gyda'i gilydd yng nghyd-destun y stori ac yn cario unrhyw nodiadau neu adborth newydd ymlaen i'w hystyried yn yr ymarfer nesaf.

LLINELLAU CYMRAEG

CYFIEITHIAD SAESNEG

Efa pulls him close. He leans in to hear.

EFA
Be sy'n... sai fod yma. Dylwn
ni ddim fod yma.

EFA
What's... shouldn't be here.
I shouldn't be here...

RORY
Beth? Daf, what's she saying?

RORY
What? Daf, what's she saying?

EFA
I shouldn't be here. None of this
should be here.

She holds him closer, looks hard into his face. Dafydd joins them.

EFA
This is before.

She looks around, breathing fast.

EFA
It's all from before. Ma hwn
cyn... cyn i...

EFA
It's all from before. This is
before... before I...

DAF
Cyn be Efa?

DAF
Before what Cyn be Efa?

RORY
Efa, what you on?
(MORE)

Roedd y dogfennau yma'n cael eu storio a'u rheoli gan y Cynhyrchydd Cynorthwyol a'u rhannu gyda'r tîm, gan archifo hen sgriptiau a fideos wrth i ni symud ymlaen. Roedd dolenni i'r ffeil yma wedi'u cynnwys ar y daflen alw ar gyfer pob diwrnod. Roedd rhaid i sawl adran gymeradwyo unrhyw newidiadau, mawr neu fach.

ASTUDIAETHAU ACHOS

BETH YW'R GWAHANIAETH RHWNG DEHONGLWYR BSL A CHYFIEITHWYR BSL?

Er eu bod yn darparu cyfathrebiadau tebyg, y prif wahaniaeth yw bod dehonglwyr yn gweithio rhwng iaith lafar a iaith arwyddion, tra bod cyfieithwyr yn gweithio o destun ysgrifenedig a iaith arwyddion.



Fe fuon ni'n gweithio gyda Chyfieithwyr Byddar ar ein holl gynnwys digidol oedd wedi'i recordio ymlaen llaw, fe fydden ni'n anfon y sgript ymlaen llaw i baratoi ar gyfer cyfieithu'r testun ysgrifenedig i iaith arwyddion, a byddai'r cyfieithydd yn dod i'n stiwdio ac yn recordio'r BSL gan ddilyn ciwiau capsiynau caeedig.



Fe fuon ni'n gweithio gyda dehonglwyr yn ystod ymarferion byw, cyfarfodydd, gweithdai, ar y set, ac ati, gan gefnogi cydweithwyr Byddar ac sy'n clywed i ymgysylltu a chyfathrebu â'i gilydd. Fe wnaethon ni hefyd ddefnyddio dehonglwyr BSL ar gyfer perfformiadau byw neu wrth ffrydio.

ASTUDIAETHAU ACHOS

GWEITHIO GYDA CHYNNWYS A CHYDWEITHWYR BYDDAR

PA FATH O BETHAU WNAETHON NI?

- Cael ein harwain gan bobl Fyddar a gweithredun berson-ganolog – bydd gwahanol bersonoliaethau a lefelau o brofiad eisiau gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Fe ofynnwn ni sut roedd unigolion yn hoffi gweithio, ar nod oedd addasu ein gwaith cydlynu prosiect i gyd-fynd â'r arddulliau yma
- Cyflogi ymgynghorwyr, cyfieithwyr, tîm creadigol a pherfformwyr Byddar
- Lleiafswm o ddau ddehonglydd cwbl gymwys ar y safle ond caniatáu/cyllidebu ar gyfer mwy wrth weithio ar safle gyda sawl cydweithiwr Byddar.
- Creu cytundeb stiwdio oedd â'r nod o gadw ystafelloedd ymarfer yn ddigynnwrf ac yn rhydd rhag pethau sy'n tynnu sylw gweledol h.y. sgysiau'n digwydd ar y cyrion, pobl yn dod i mewn ac allan o'r ystafell neu'n cwblhau gwaith arall yn y gornel.
- Cyfathrebu gyda'r Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth i sicrhau bod y camera'n ystyriol o iaith weledol h.y. ddim yn symud oddi ar unrhyw arwyddo cyn i'r arwyddo ddod i ben
- Sgriptiau ysgrifenedig yn mynd drwy broses gyfieithu BSL gydag ymgynghorydd Byddar a chefnogaeth gan ein cydweithwyr Byddar
- Gweithio gyda Chyfieithwyr Byddar ar gyfer yr holl gynnwys oedd wedi'i recordio ymlaen llaw

YR HYN ROEDDEN NI EI EISIAU GAN DDEHONGLYDD BSL AR GYFER PROSIECT O'R MAINT YMA.

- Cwbl Gymwys
- Profiad o leoliadau theatr, dawnys neu gelfyddydol
- rgaeledd da i weithion gyson ar draws y prosiect
- gallu i deithio o gwmpas y wlad gyda'r cwmni.
- Parodrwydd a gallu i weithio mewn lleoliadau syn benodol i safle ac mewn lleoliadau gwledig/allanol heriol.
- Parodrwydd i gael eu harwain gan gydweithwyr Byddar ond hefyd i gefnogi dysgwyr BSL syn clywed gyda'u harwyddo.
- Bod yn hyblyg o ran amserlenni mewn prosiect heriol.
- Hapus i weithio dyddiau hir.
- Bod yn berchen ar ddillad ac esgidiau addas ar gyfer tywydd a thirwedd anodd
- Yn ddelfrydol, siarad Cymraeg yn ogystal â Saesneg.

ASTUDIAETHAU ACHOS

HERIAU YMARFEROL – MAWR A BACH

- Yn aml, dim ond gwestai cadwyn sydd â systemau larwm gweledol neu gyffyrddiadol addas ar gyfer gwesteion Byddar, ac yn aml iawn dim ond un neu ddau sydd ganddyn nhw ar gael. Gan wybod ein bod yn teithio gyda chymaint o gydweithwyr Byddar, a hynny'n aml mewn lleoliadau gwledig lle mae opsiynau gwestai yn gyfyngedig, fe brynon ni systemau larwm gyffyrddiadol cludadwy fyddai'n teithio gyda'r cwmni wrth iddyn nhw symud o gwmpas y wlad.
- Roedd BSL wedi'i integreiddio i'r coreograffi ond roedd gweithio mewn un saethiad yn golygu nad oedd pob arwydd yn cael ei ddal ar y sgrin neu eu bod yn anodd eu gweld mewn rhai saethiadau.
- Menywod yw mwyafrif y dehonglwyr BSL, ac yn aml nhw yw'r prif ofalwr gartref. Fe fuon ni'n gweithio'n agos gyda thîm enfawr o ddehonglwyr ledled Cymru i sicrhau bod ein gwaith amserlennu'n addas ar eu cyfer nhw a'u bywyd cartref gan sicrhau hefyd ein bod yn cydbwyso hynny gydag amserlen heriol ar gyfer ein cydweithwyr Byddar.
- Fe gynhalion ni dîm craidd o ddehonglwyr drwy gydol y prosesau creu ac ymarfer ac roedd ganddon ni o leiaf un ohonyn nhw ym mhob sesiwn. Roedd hyn yn golygu bod ganddon ni ddehonglwyr oedd yn wybodus am natur gymhleth y prosiect, fe ddysgon nhw sut roedd ein cydweithwyr Byddar yn hoffi gweithio ac roedden nhw'n gallu sicrhau bod dehonglwyr newydd yn dysgu am hynny'n gyflym hefyd.
- Ar ein diwrnod cyntaf o ddyfeisio, roedden ni'n gweithio mewn stiwdio gyda llawer o bileri, gan achosi heriau ychwanegol o ran gweld wynebaw pawb a nodi pwy oedd yn siarad. Ar ôl hynny, fe wnaethon ni sicrhau na fyddai gan yr un stiwdio yn y dyfodol bileri, ac fe fydden ni hefyd yn anelu i gael gofodau gyda golau naturiol i helpu i osgoi bod dehonglwyr yn cael cur pen wrth ganolbwyntio'n galed.
- Pe bai ganddon ni fwy o gapasiti, fe fydden ni wedi hoffi edrych ymhellach ar yr elfennau technegol o ran creu mwy o gyfleoedd i gyfieithwyr Byddar yn ein ffrydiau byw. Yn ystod ein gwaith profi a'n hymchwil, fe welon ni na allai ein seilwaith darlledu ddibynnu ar giwio cyfieithwyr ar sail capsiynau caeedig heb achosi oedi sylweddol i gynulleidfaoedd. **Roedd hynny er bod Red Bee Media wedi bod yn gwneud cynnydd technegol gwych yn y maes yma.**

ASTUDIAETHAU ACHOS

HERIAU YMARFEROL – MAWR A BACH

- Fel arfer, fyddai dehonglydd BSL ddim yn gorfod ystyried a yw'n ddigon corfforol holliaich i ymgymryd â swydd, ond fe ofynnon ni hynny i lawer o'n dehonglwyr yr oedd angen weithiau iddyn nhw gerdded milltiroedd bob dydd ar dir garw. Ar adegau, fe wnaethon ni amrywio dehonglwyr ar hyd y daith i dorri ar faint o gerdded roedd rhaid iddyn nhw ei wneud.
- Fe wnaethon ni logi goleuadau llaw symudol i sicrhau bod dehonglwyr yn weladwy wrth weithio ar leoliad gyda'r nos, ac roedd angen cynllunio ychwanegol i benderfynu pwy allai ddal y golau ar set brysur gyda tîm dan bwysau. Yn dibynnu ar y tir, roedd modd ei osod ar y llawr, ond yn aml iawn roedden ni'n symud wrth siarad.
- Roedd yn brosiect oedd yn symud yn gyflym, ac ar adegau roedd cannoedd o bobl yn gweithio ar y set. Dysgodd aelodau o'r tîm sy'n clywed wneud yn siŵr eu bod yn oedi i'r dehonglwyr wneud eu gwaith. Ar adegau, byddai'n hawdd mynd i hwyl, ond roedd aelodau o'r tîm sy'n clywed hefyd yn ddigon cyfeillgar fel y gallen ni ddweud 'arhoswch – gadewch i bawb ddal i fyny a wedyn ewch'. Fe roddon ni rym i'r tîm rheoli llwyfan oedi'r sesiynau yn ôl yr angen.
- Ar gyfer darnau mawr o gyfathrebu neu gyfarwyddiadau, fe fydden ni'n aml yn atgoffa timau y gallai fod hyd at 30 eiliad o oedi cyn i gydweithiwr Byddar brosesu'n llawn yr hyn oedd yn cael ei gyfathrebu ar lafar i'r grŵp o gymharu â chydweithwyr sy'n clywed.
- Roedd heriau hefyd drwy gael timau mawr oedd wedi'u gwasgaru ar draws sawl lleoliad gwledig yn syth ar ôl ei gilydd, oedd yn aml yn golygu nad oedd amser ar gyfer cwestiynau nac adborth. Yn aml, byddai un dehonglydd yn sefyll wrth ochr y cyfarwyddwr neu'r rheolwr llwyfan ac un arall wrth ochr cydweithiwr Byddar i wneud yn siŵr nad oedd dim yn cael ei golli wrth ddehongli a bod pawb yn cael cyfle i gyfathrebu.

ASTUDIAETHAU ACHOS

'GWIRIONEDDOL' HYGGRCH

Nid ymarferiad ticio blychau yw hygyrchedd, mae'n golygu canlyniadau go iawn a dinistriol ar adegau os na chaiff ei gwblhau'n gywir neu o fewn amserlen addas. Bydd staff logisteg bob amser eisiau rhestr wirio berffaith i wneud yn siŵr bod lleoliad neu westy yn gwbl hygyrch i bawb sy'n ei ddefnyddio. Fodd bynnag, dydy rhestrau gwirio ddim bob amser yn ffordd ddibynadwy o sicrhau mynediad da oherwydd nad ydyn nhw bob amser yn caniatáu ar gyfer rhyngblethni.

ENGHREIFFTIAU

1.

Fe wnaethon ni ofyn i leoliad a oedden nhw'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac fe ddywedon nhw 'ydyn'. Er bod yr adeilad yn hygyrch, yr hyn roedden nhw'n ei olygu oedd bod ganddyn nhw un tŷ bach oedd yn fwy o faint na'u tai bach eraill. Doedd dim lle i gylch troi, oedd yn golygu y byddai angen i unrhyw un sy'n defnyddio cadair olwyn gamu oddi ar eu cadair olwyn ymlaen i'r tŷ bach yn hytrach na gallu codi eu hunain o'r gadair i'r tŷ bach. Doedd ganddo chwaith ddim canllaw cydio na llinyn tynnu mewn argyfwng. Doedd y lleoliad ddim wedi dweud celwydd wrthon ni, roedden nhw'n credu bod y lleoliad yn hygyrch. Felly, dim ond drwy ofyn y cwestiynau cywir neu ymweld â'r safle y gallen ni ymchwilio i realiti darpariaeth hygyrchedd lleoliadau.

2.

Fe fuon ni'n gweithio gyda chydweithiwr i greu pecyn mynediad personol i'w ddefnyddio mewn rolau y tu allan i GALWAD. Rhoddodd yr unigolyn yma eu pecyn mynediad i'w cyflogwr newydd a gwirio dro ar ôl tro a oedden nhw wedi ei ddarllen.

Dri mis i mewn i'r rôl newydd, fe gafodd yr unigolyn dan sylw argyfwng iechyd yn y gwaith a doedd neb yn gwybod beth i'w wneud na sut i'w cefnogi, a dim ond ar ôl iddyn nhw fynd yn sâl y darllenodd y cyflogwr y pecyn mynediad, oedd yn golygu eu bod wedi rhoi iechyd a lles yr unigolyn mewn risg.

- Er mwyn i'n gwaith fod yn rhyngblethol, fe wnaethon ni annog newid ymddygiad lle roedden ni'n gwithio staff i gael sgysiau manylach ar ddealltwriaeth a pharch lleoliad/digwyddiad/gwesty at hygyrchedd.
- an fo'r bobl sy'n gyfrifol am wneud trefniadau yn cael grym i fabwysiadu meddylfryd ditectif a chymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod lleoedd yn **wirioneddol** hygyrch.
- Gallwch weld ein rhestr archwilio lleoliadau a gwestai yma. .

OFFER MYNEDIAD GALWAD

TEMPLED PECYN MYNEDIAD

Mae'n bwysig, os bydd rhywun yn nodi bod ganddyn nhw ofynion mynediad, bod hyn yn cael ei ddilyn gan sesiwn 1-1 gydag aelod o'r tîm sydd â sgiliau a phrofiad o wreiddio hygyrchedd ym mhrosesau eich sefydliad neu'ch prosiect.

TEMPLED ARCHWILIO MYNEDIAD AT DDIGWYDDIADAU

Gyda phrosiect heriol sy'n symud yn gyflym, fe ddefnyddion ni archwiliadau mynediad at ddigwyddiadau i sicrhau bod pobl allweddol oedd yn arwain sesiynau neu ddigwyddiadau yn gwbl ymwybodol o'r holl ofynion mynediad yn yr ystafell. Roedden ni'n gofyn am gydsyniad gwybodus gan bawb oedd yn bresennol ar sut y gallen ni ddefnyddio a rhannu eu gwybodaeth.

CWESTIYNAU ARCHWILIO MYNEDIAD LLEOLIADAU A GWESTAI

Roedden ni am osgoi creu rhestr wirio un ateb ac yn hytrach annog ein timau i ddechrau sgysiau a gofyn am fanylder gan leoliadau a gwestai er mwyn darganfod y realiti o ran mynediad.

MATERION CADW TŶ O RAN MYNEDIAD AR GYFER DIGWYDDIADAU AR-LEIN

Fe gynhalion ni lawer o ddigwyddiadau ar-lein oedd yn cyflwyno sawl haen o ran mynediad, mae'r canllaw yma'n dangos manylion sut i gael pethau'n iawn.

ARWEINIAD AR GYFER TREFNU CYFARFODYDD HYGYRCH

Sut gwnaethon ni ymdrin â chyfarfodydd hygyrch ar-lein

ADBORTH

"Diolch am eich cefnogaeth hyd yn hyn, ac fe hoffwn i ddweud ei bod mor braf gweld briff castio mor feddylgar gan gynnwys bod mor gynhwysol a rhoi opsiynau i actorion – gobeithio y bydd gweddill y diwydiant yn dilyn!"

ASIAN T CASTIO

"Mae wedi fy nghyffwrdd yn fawr, a dw i'n meddwl ei fod yn wych. Mae gen i nith dair oed sydd â Syndrom Down ac mae gweld negeseuon fel hyn wir yn gwneud i fi deimlo mor gadarnhaol am y dyfodol a'r posibiliadau sydd ganddi. Mae'r cynnwys yn brydferth a dw i wrth fy modd gyda'r monolog yma. Dw i wrth fy modd gyda pha mor gynhwysol yw GALWAD!"

AELOD O'R GYNULLEIDFA

"O'n i'n meddwl fy mod i'n gwybod llawer am Fynediad a Chynhwysiant, ar ôl bod ar hyfforddiant a gweithio ar brosiectau celfyddydol cynhwysol o'r blaen, ond dw i'n dal wedi dysgu llawer o'r prosiect yma. Fe wnaeth gweithio mor agos gyda defnyddiwr cadair olwyn roi gwell dealltwriaeth i fi o'r heriau dyddiol maen nhw'n eu hwynebu, yn enwedig o ran gwaith safle-benodol.

"Mae myfyrio ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a gweithio gyda'r Rheolwr Mynediad wedi pwysleisio pwysigrwydd cyllidebu ar gyfer costau mynediad a gwreiddio cynwysoldeb o'r cychwyn cyntaf. Mae'r sgwrs am estheteg ac allbwn creadigol wedi ysgogi'r meddwl ac mae'n rhywbeth y bydda i'n ei ddefnyddio wrth feddwl am gyflwyno fy ngwaith fy hunan.

"Dw i'n credu fy mod i hefyd wedi teimlo optimistiaeth ynghylch mynediad a chynhwysiant achos, er gwaetha'r heriau niferus, roedd yn anhygoel gweld beth oedd yn bosib drwy gynnwys BSL yn Fyw ac yn y Ddrama Deledu, oedd yn teimlo fel cam mawr ymlaen ar gyfer celfyddydau a diwylliant prif ffrwd."

AELOD O STAFF

ADNODDAU

SEFYDLIADAU, POBL, GWAITH DARLLEN A FIDEOS DEFNYDDIOL

Y saith egwyddor gynhwysol gan We Shall Not Be Removed

<https://www.weshallnotberemoved.com/the-seven-principles/>

Mae gan Unlimited gyfres wych o adnoddau defnyddiol ar gyfer artistiaid a sefydliadau

<https://weareunlimited.org.uk/resources/>

Working as a Deaf Freelancer gan Oliver Jamin

<https://www.artsprofessional.co.uk/magazine/freelancing/feature/speaking-same-language-working-deaf-freelancer>

Making Wellbeing Radical gan Graham MacLeod Johnson

<https://www.youtube.com/watch?v=ggmwMEvxQNE>

Dehonglwyr Zoom a BSL gan Liam Odell drwy Limping Chicken

<https://limpingchicken.com/2022/10/27/zoom-launches-sign-language-interpretation-setting-but-it-wont-be-included-in-recordings/>

Mynediad at Waith gan RNIB

<https://www.rnib.org.uk/living-with-sight-loss/equality-and-employment/information-for-jobseekers/access-to-work/>

Mynediad at Waith gan Celfyddydau Anabledd Ar-lein

<https://disabilityarts.online/atw/>

Trusting others with my safety in a non-disabled world is terrifying gan Samantha Rouke

<https://metro.co.uk/2022/09/27/trusting-others-with-my-safety-in-a-non-disabled-world-is-terrifying-17455832/>

<https://medium.com/wherefrom/the-accessibility-of-sustainability-9221fd3d7843>

<https://medium.com/behind-the-curtain/mis-understanding-the-benefits-of-bilingual-theatre-61247d5f0ccc>

ADNODDAU

SEFYDLIADAU, POBL, GWAITH DARLLEN A FIDEOS DEFNYDDIOL

Bird of Paradise – Cyfres Make it Accessible

<https://www.boptheatre.co.uk/make-it-accessible/>

Model Cymdeithasol o Anabledd gan Unlimited

<https://weareunlimited.org.uk/resource/social-model-disability-animation/>

<https://www.artsprofessional.co.uk/magazine/article/ending-ableism-arts?>

<https://www.scope.org.uk/advice-and-support/checking-event-venue-accessibility/><https://wheelmap.org/search>

<https://www.bbc.co.uk/ouch/messageboards/>

<https://hiddendisabilitiesstore.com/>

<https://www.safelincs.co.uk/fire-alarms-for-the-hard-of-hearing/>

<https://www.thepurpleguide.co.uk/>

<https://weareunlimited.org.uk/resource/cards-for-inclusion/>

Ymgynghorwyr a dehonglwyr

<https://www.deaftalentcollective.com/>

<https://www.saronatraining.co.uk/>

<https://www.nrcpd.org.uk/>

<https://www.interpretersofcolour.net/>

<https://southwalesinterpreters.co.uk/>

DIOLCH

Fydden ni ddim wedi gallu cyflawni GALWAD a'r adroddiad dilynol yma heb nifer enfawr o bobl a sefydliadau gwych y mae arnon ni gymaint o ddyled iddyn nhw.

Ein partneriaid yn Celfyddydau Anabledd Cymru (DAC) a'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnic a Ieuencid (EYST) a chwaraeodd ran enfawr yn ein llywio yn y cyfeiriad cywir ac yn ein cadw'n atebol.

Kaite O'Reilly, y gwnaeth ei gwybodaeth arbenigol ym maes Estheteg Mynediad ein dysgu i wneud gwaith oedd yn ddilys a heb fod yn docenistaidd.

Louise Stern, sy'n eiriolwr mor wych i bobl Fyddar, a'n cadwodd ar y llwybr cul a'n gwthio pan oedd angen hynny.

Fe hoffen ni ddiolch yn arbennig i'n hymgyngorydd BSL craidd Sarah Smith o gwmni Sarona, a weithiodd yn ddiflino hyd yn oed pan oedd angen i ni ei llusgo i fyny ac i lawr mynyddoedd.

I'n dehonglwyr BSL; rydyn ni mor ddiolchgar am eich ymroddiad ar brosiect mor uchelgeisiol.

I'r holl randdeiliaid, artistiaid, cydweithwyr, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd Byddar, Anabl a Niwroamrywiol – Diolch i chi am ganiatáu i ni roi cynnig ar rywbeth uchelgeisiol ar y raddfa yma.

Ein cyllidwyr. Hebddyn nhw, fydden ni ddim wedi gallu gwthio ffiniau a herio'r sector fel y gwnaethon ni.

Ein holl staff mynediad a chymorth a weithiodd mor gydnaws â'n hegwyddorion. Ac yn olaf, diolch i Adeiladwyr Bydoedd Cymru, y gwnaeth eu straeon ein hysbrydoli ni i edrych tua'r dyfodol.

#MaerDyfodolYma

Roedd GALWAD yn rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi'i gyd-gomisiynu gyda Cymru Greadigol drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cynhyrchwyd GALWAD gan Casgliad Cymru, partneriaeth Cymru gyfan o dan arweiniad National Theatre Wales sy'n cynnwys Frân Wen, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Clwstwr, Celfyddydau Anabledd Cymru, Ffilm Cymru a Sugar Creative.

Roedd ein partneriaid adeiladu bydoedd cymunedol yn cynnwys CellB, Citizens Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid (EYST) ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful.

Arweiniwyd prosiect Ystafell Newyddion y Bobl gan y Swyddfa Newyddiaduraeth Ymchwilol a'r Rhwydwaith Newyddiaduraeth Atebion.

National Theatre Wales
30 Arcêd y Castell
Caerdydd
www.galwad.cymru

Justin Melliush yn perfformio yn niwedd glo GALWAD ym Mlaenau Ffestiniog. Llun gan Kirsten McTernan



Cymru Greadigol
Creative Wales

Funded by



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delivered in
partnership with



Belfast
City Council

EventScotland™



Cymru Greadigol
Creative Wales